# Cynllun Cydraddoldeb Strategol Adroddiad Monitro Blynyddol

# 2024 - 2025



# Cyflwyniad a Chyd-destun Polisi

Mae'r adroddiad monitro blynyddol hwn yn rhoi sylw i gynnydd yn ystod y cyfnod yn diweddu ym mis Mawrth 2025. Mae'n rhoi adroddiad ar gynnydd ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 20 Chwefror 2024. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol diweddaraf ar gael ar wefan y Cyngor yn: https://www.monmouthshire.gov.uk/equality-and-diversity/

## Cyswllt gyda strategaethau

Nid yw hwn yn gynllun sy'n sefyll ar ei ben ei hun ac mae ganddo gyswllt agos gyda nifer o strategaethau allweddol a pholisïau eraill y cyngor, partneriaethau a chenedlaethol. Mae gan rai ohonynt ffocws penodol ar gydraddoldeb ac mae eraill wedi cynnwys cydraddoldeb fel un o'r themâu allweddol. Mae'r dilynol yn enghreifftiau:

- Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Cymraeg 2050 (1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050)
- Strategaeth Mwy na Geiriau
- Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy 2011-21
- Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 1 Ebrill 2016
- Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
- Cynllun Gweithredu LDHTC+
- Cynllun Gweithredu ar Anabledd
- Cynllun Hybu Cydraddoldeb Rhywedd

Yn ogystal â'i gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio gyda'i ddyletswyddau cyffredinol a phenodol a amlygir isod, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn rhoi cyfle iddo ddangos ei ymrwymiad i egwyddorion cydraddoldeb a fu'n nodwedd o'i swyddogaethau cyn i'r Ddeddf ddod i rym.

# Cyd-destun Deddfwriaethol

## Dyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010

Wrth weithredu ei swyddogaethau mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyladwy i

1. ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a gaiff ei wahardd gan y Ddeddf;
2. hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu hynny;
3. meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu hynny.

Mae'r Ddeddf yn esbonio fod rhoi sylw dyladwy i hybu cydraddoldeb yn cynnwys:

- Dileu neu leihau anfanteision a gaiff eu dioddef gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig lle maent yn wahanol i bobl eraill.
- Annog pobl o grwpiau gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

## Y Dyletswyddau Penodol yng Nghymru

Diben bras y dyletswyddau penodol yw helpu cyrff cyhoeddus, tebyg i'r Cyngor hwn, wrth gyflawni eu dyletswydd gyffredinol, ac i gynorthwyo tryloywder. Caiff y dyletswyddau penodol eu gosod yng Nghymru gan Reoliadau 2011 Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol) (Cymru).

Y dilynol yw'r dyletswyddau penodol:

- Gosod amcanion cydraddoldeb a chyhoeddi cynlluniau cydraddoldeb strategol
- Ymgysylltu
- Asesu effaith
- Gwybodaeth ar gydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth, gwahaniaethau tâl a hyfforddiant staff
- Caffael
- Adroddiadau a chyhoeddi

# Ein Sylfaen: Diben a Gwerthoedd

## Ein Diben

***Bydd Sir Fynwy yn sir ddi-garbon, gan gefnogi llesiant, iechyd ac urddas ar gyfer pawb ar bob cam o fywyd.***

Mae'r diben hwn yn ganolog i bopeth a wnawn i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Fynwy.

## Ein Gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn bwysig i ni. Maent yn gosod ein disgwyliadau ar ein cyfer ein hunain, ein gilydd a'r ffordd y cynhaliwn fusnes gyda sefydliadau y gweithiwn gyda nhw ar eich rhan.

Ein gwerthoedd yw:

**Gwaith Tîm**

Mae cydweithredu yn ganolog i bopeth a wnawn. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan. Gwnawn y gorau oll o'r syniadau a'r adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

**Bod yn agored**

Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan a dweud wrthym beth sy'n bwysig iddynt.

**Hyblygrwydd**

Rydym yn hyblyg, gan alluogi darparu'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i goleddu syniadau newydd o weithio.

**Tegwch**

Darparwn gyfleoedd i'n holl bobl a chymunedau i ffynnu. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson, gan gydnabod y bydd angen i ni weithiau gymryd camau gweithredu cadarnhaol i oresgyn rhai o'r heriau sy'n wynebu pobl gyda gwahanol nodweddion gwarchodedig.

**Caredigrwydd**

Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb y gweithiwn gyda nhw, gan roi pwysigrwydd y berthynas a'r cysylltiad sydd gennym gyda'n gilydd wrth galon pob rhyngweithio.

# Amcanion cydraddoldeb strategol Sir Fynwy 2024-2028

Yr amcanion strategol a gytunwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yw:

- **Amcan 1:** Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn.
- **Amcan 2:** Cefnogi creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb.
- **Amcan 3:** Gweithio gyda phartneriaid a phreswylwyr i adeiladu cymunedau cynhwysol a chydlynol.
- **Amcan 4:** Ehangu ein darpariaeth o wasanaethau cymunedol sy'n ymestyn disgwyliad oes iach pobl.
- **Amcan 5:** Sicrhau fod ein gwasanaethau yn hygyrch i'r cyhoedd.
- **Amcan 6:** Sicrhau fod gennym weithlu amrywiol a gweithle hollol gynhwysol
- **Amcan 7:** Gostwng y bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar gynnydd ar yr amcanion hyn.

# 1. Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant

Mae'r amcan hwn yn gysylltiedig â:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran | x | Crefydd neu Gredo | x |
| Anabledd | x | Rhyw | x |
| Ailbennu Rhywedd | | Cyfeiriadedd Rhywiol | x |
| Priodas neu Bartneriaeth Sifil | | Yr Iaith Gymraeg | x |
| Beichiogrwydd neu Famolaeth | | Tlodi | x |
| Hil | x | | |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Gweithio gyda phartneriaid ar draws Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent, yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus a'r GIG i ymwreiddio camau gweithredu i ostwng anghydraddoldeb iechyd mewn | Cefnogi plant , pobl ifanc a theuluoedd i wella eu hiechyd a'u llesiant | Rheolwr Partneriaethau Strategol | Mae gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent bedwar maes ffocws. Un ohonynt yw 'Dechrau Gorau mewn Bywyd', sydd â'i ffocws ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ar y man cynharaf, gan roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant a phobl ifanc.<br><br>Ymrwymodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i ddod yn Ranbarth Marmot. Sefydlwyd grŵp arweinyddiaeth rhanbarthol, sy'n cynnwys mewnbwn ar lefel cyfarwyddwr gan Gyngor Sir Fynwy. Mae'r grŵp yn awr yn arwain ar ddatblygu'r maes ffocws hwn, sy'n edrych ar draws Gwent a Sir Fynwy ar sut i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Rydym hefyd yn cydweithio gyda phartneriaid i wella'r data lleol a ddefnyddiwn i ddeall a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd. |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
| --- | --- | --- | --- |
| gwasanaethau blynyddoedd cynnar. | | | Bydd Bwrdd Rhaglen Gwent yn ganolog wrth ddatblygu a goruchwylio'r camau gweithredu cyflenwi lleol fydd yn cefnogi amcanion y grŵp arweinyddiaeth a sicrhau fod y gwaith hwn yn hidlo lawr i'n cymuned leol ac yn gwella bywydau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn y sir. |
| Cynyddu'r nifer sy'n cymryd prydau ysgol am ddim gan ganolbwyntio ar yr ysgolion hynny lle mae'r angen mwyaf. | Dim plentyn yn newynnog yn yr ysgol. | Prif Swyddog – Plant a Phobl Ifanc | Rydym wedi ymestyn prydau ysgol am ddim i bawb. Mae prydau bwyd iach a rhad ac am ddim yn yr ysgol yn helpu'r holl blant i ddysgu a ffynnu beth bynnag yw eu cefndir neu incwm. Mae'r defnydd a wneir o brydau yn parhau i amrywio ar draws y sir, derbyniodd cyfartaledd o 75% y prydau yn y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn gweithio gydag ysgolion, rhieni a dysgwyr i ddeall a dileu unrhyw rwystrau i'r galw.<br><br>Cafodd sesiynau coginio eu datblygu a'u cyflenwi i ysgolion lle mae galw isel am brydau ysgol am ddim i geisio annog teuluoedd i fanteisio ar y cynnig. |
| Gweithredu i ostwng tlodi yn ein hysgolion drwy ostwng cost y diwrnod ysgol, gan sylweddoli fod pob punt yn cyfrif i lawer o deuluoedd. | Cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i wella eu hiechyd a'u llesiant. | Prif Swyddog – Plant a Phobl Ifanc | Mae clwstwr ysgolion Trefynwy wedi creu polisi gwrth-dlodi drafft. Bydd y clystyrau eraill yn dilyn. Mae mwyafrif yr ysgolion yn awr wedi cyflwyno Siopau Ffeirio gwisg ysgol a llawer hefyd wedi cynnwys cypyrddau bwyd wrth ochr y siop ffeirio neu mewn gofod cymunedol i rannu bwyd dros ben gyda theuluoedd a'r gymuned leol.<br><br>Gellir defnyddio'r gwaith a nodwyd eisoes, addysgu sgiliau coginio i gynyddu'r galw am brydau ysgol am ddim, yn y cartref i rymuso teuluoedd i goginio gan ddefnyddio cynnyrch ffres, sy'n aml yn costio llai na phrynu prydau parod.<br><br>Rydym wedi sicrhau Banc Barclays i gyflwyno sesiynau llesiant ariannol i bobl ifanc yn ein hysgolion.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu ychydig dros £450k i ysgolion Sir Fynwy i sicrhau fod ganddynt fwy o ffocws ar y gymuned. Cyflwynwyd |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | pedwar syniad prosiect i gael eu hystyried. Maent yn cynnwys cefnogi teuluoedd gyda chostau byw. |
| Sicrhau fod pob ysgol yn Sir Fynwy yn dynodi uwch arweinydd sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â thlodi a chodi cyflawniad dysgwyr agored i niwed. | Cefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion bregus i gyflawni eu potensial llawn. | Prif Swyddog – Plant a Phobl Ifanc | Mae'r holl ysgolion yn amlinellu cefnogaeth i grwpiau bregus, a ddiffinnir fel y rhai a all fod yn fwy tebygol o brofi rhwystrau emosiynol, cymdeithasol a datblygiadol ac yn cynnwys data fel rhan o'u Cynllun Gwella Ysgol. Gall hyn gynnwys caledi ariannol a chymdeithasol o fewn teuluoedd disgyblion: disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a disgyblion o deuluoedd incwm isel. |
| Datblygu strategaeth newydd ar Anghenion Dysgu Ychwanegol a phecynnau cymorth ac adnoddau cysylltiedig, gyda ffocws ar gefnogi ymddygiad cadarnhaol. | Cefnogi dysgwyr agored i niwed i gyflawni eu potensial llawn. | Pennaeth Cynhwysiant | Rydym wedi cwblhau Strategaeth Cynhwysiant a Pholisi Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd. Cawsant eu hystyried gan y Pwyllgor Craffu Pobl cyn gwneud penderfyniad.<br><br>Rydym wedi sefydlu prosesau i sicrhau y caiff Cynlluniau Datblygu Annibynnol eu paratoi yn amserol a'u bod ar waith lle mae angen i gefnogi pontio i ysgolion neu ganolfannau adnoddau arbenigol.<br><br>Mae mwyafrif y plant gyda ADY neu anghenion sy'n dod i'r amlwg yn cael cyfarfod cynllunio pan fyddant yn mynd i ysgol neu feithrinfa i wella pontio a sicrhau fod gan ysgolion y gefnogaeth briodol yn ei lle ar gyfer dechrau'r tymor ysgol. Dywedodd ysgolion a rhieni fod hyn wedi arwain at bontio llyfnach a dechrau mwy cadarnhaol i fywyd eu plentyn yn yr ysgol.<br><br>Cafodd ystod eang o hyfforddiant ADY ei gynnig i ymarferwyr gofal plant i gynyddu eu sgiliau fel y gallant ddiwallu anghenion unigol plant. |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Parhau i gymryd dull gweithredu ataliol i ostwng absenoldeb mewn ysgolion drwy ddatblygu dulliau Osgoi Ysgol Seiliedig ar Emosiwn ac Ystyriol o Drawma mewn ysgolion | Cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i gyflawni eu potensial llawn | Pennaeth Cynhwysiant | Rydym wedi rhoi trefniadau yn eu lle i alluogi ysgolion i gael mynediad i sesiynau dysgu proffesiynol a holi ac ateb ar-lein i gefnogi cyflenwi osgoi ysgol seiliedig ar emosiwn (EBSA). Mae hyn er mwyn mynd i'r afael â'r gostyngiad mewn presenoldeb ysgol ers y pandemig. Mae'r cynnig yn cynnwys cymorth gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol i ddatblygu cynlluniau cymorth ansawdd uchel ar EBSA. Rydym yn dal i ddatblygu adnoddau ychwanegol i gefnogi ysgolion.<br><br>Cafodd cynnig aml-haenog Sgiliau Ymarfer a Strategaethau Ystyriol o Drawma ei ddatblygu ar y cyd gyda Straen Trawmatig Cymru. Caiff hyfforddiant mewn Sgiliau Trawma ei beilota yn ysgolion Sir Fynwy a'r Awdurdod Addysg Lleol ar hyn o bryd. Cafodd canllawiau ac offer eu datblygu i gefnogi sefydlu'r dulliau gweithredu hyn a chaiff y gwaith ei oruchwylio gan Grŵp Llywio.<br><br>Bu cynnydd graddol mewn presenoldeb yn ein ysgolion cynradd. Ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2023/24 roedd presenoldeb yn 93.6%; dengys data darpariaethol fod presenoldeb yn 94.1% yn nhymor yr haf 2024/25. Bu presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn arafach i gynyddu. Roedd presenoldeb yn 88.2% ym mlwyddyn academaidd 2023/24, roedd presenoldeb darpariaethol yn 90.1% yn nhymor yr haf 2024/25. Mae presenoldeb ar gyfer y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn parhau yn is. |
| Gwella mynediad i, a defnydd, o ddata a gasglwyd gan ysgolion yn ymwneud â bwlio, | Data gwell i roi cymorth i blant a phobl ifanc i deimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd | Pennaeth Cynhwysiant | Rydym wedi sefydlu templed newydd i wella recordio materion Hawliau, Parch a Chydraddoldeb/Gwrth-fwlio gydag adroddiadau gorfodol ar ddigwyddiadau nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, Deddf Cydraddoldeb 2010 a Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru. |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| aflonyddu a gwahaniaethu, a rhoi cymorth. | ysgol. | | Rydym yn defnyddio data yn rhagweithiol ac yn ataliol i ddynodi a thrin pryderon, yn cynnwys rhai a godir gan rieni. Rhoddwyd adborth i ysgolion lle mae ffurflenni data yn dangos fod problemau a lle mae ysgolion wedi anfon ffurflenni heb ddim cofnodion. Mae gwaith yn mynd rhagddo gydag ysgolion uwchradd sy'n ceisio gwella eu systemau.<br><br>Rydym wedi cyflwyno hyfforddiant gwrth-fwlio fel rhan o'r cynnig Arweinydd Dysgwyr Bregus. Caiff y cynnwys nawr ei wneud ar gael i holl staff ysgolion a swyddogion.<br><br>Fe wnaethom ddefnyddio corff allanol – No Boundaries – i gyflwyno sesiwn benodol ar wrth-hiliaeth ym mis Hydref 2024. Cafodd arolwg ei greu i roi llinell sylfaen gywir o hyfforddiant ysgol hyd yma ac anghenion y dyfodol. Rydym wedi cydweithio gydag awdurdod arall i alluogi dysgu rhwng cyfoedion. |
| Darparu addysg gynhwysol o LHDTC+ drwy adran Cydberthynas ac Addysg Rhywioldeb y Cwricwlwm i Cymru. | Plant, pobl ifanc a dysgwyr agored i niwed yn cael eu cefnogi'n gynhwysol. | Pennaeth Cynhwysiant | Rydym yn parhau i gynnig dysgu proffesiynol adnoddau a sesiwn holi ac ateb bob tymor ar y cwricwlwm Cydberthynas ac Addysg Rhywioldeb. Mae hyn yn cynnwys dysgu proffesiynol wrth ddynodi dysgwyr bregus, gan roi cymorth a chyfeirio at wasanaethau.<br><br>Fe wnaethom gynnal sioe deithiol Amrywiaeth mewn dwy ysgol uwchradd ar gyfer 380 o ddisgyblion yn ystod mis Pride 2024. Ledled Sir Fynwy cymerodd 915 o bobl ifanc ran mewn gweithdai a chlybiau. Cafodd hyn ei ariannu drwy Grant Cymorth Ieuenctid Llywodraeth Cymru.<br><br>Yn ystod 2024-25 cynhaliodd y Gwasanaeth Ieuenctid 32 sesiwn amser cinio LHDTC+ yn Ysgol Brenin Harri VIII yn y Fenni, a mynychodd deg o bobl ifanc.<br><br>Fe wnaeth ein staff hefyd gyflwyno sesiwn ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth/Rhywedd a Rhywioldeb yng Ngholeg Brynbuga. Sgôr |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | cyfartalog y gwerthusiadau o'r sesiwn oedd 7/10.<br>Cawsom hefyd atgyfeiriadau i'n prosiect Shift ar gyfer pobl ifanc LHDTC+. Mae'r rhaglen hon yn cefnogi pobl ifanc gydag anghenion iechyd meddwl a lles emosiynol a chaiff ei ariannu drwy Grant Cymorth Ieuenctid Llywodraeth Cymru. |
| Gweithio gydag eraill i gynyddu darpariaeth gofal plant ac ansawdd mewn ardaloedd o amddifadedd uwch gyda'r nod o ostwng anghydraddoldeb. | Cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i wella eu llesiant. | Pennaeth Cyflawni ac Ymestyn | Mae cyfanswm nifer darparwyr gofal plant wedi gostwng gan dri, fodd bynnag bu cynnydd bach yn nifer y lleoedd gofal plant ac mae rhai lleoliadau wedi ymestyn eu horiau agor i ddiwallu anghenion rhieni/gofalwyr. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r darparwyr gofal plant presennol a darpar ofalwyr gofal plant a mynychu ffeiriau gyrfaoedd, i ddatblygu darpariaeth gofal plant ychwanegol.<br>Rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025 cynigwyd 67 o gyfleoedd hyfforddiant i ymarferwyr gofal plant mewn 25 cwrs gwahanol. Mae'r rhain yn amrywio o gyrsiau statudol tebyg i Cymorth Cyntaf Pediatrig a Diogelu i gyrsiau arfer gorau tebyg i Froebel, Cyfathrebu Cynnar, Addysgu Tîm, Ymagweddau Cadarnhaol at Ymddygiad a modiwlau ADY. |

## 2. Cefnogi creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb

Mae’r amcan hwn yn gysylltiedig â:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran | x | Crefydd neu gredo | x |
| Anabledd | x | Rhyw | x |
| Ailbennu rhywedd | x | Cyfeiriadedd rhywiol | x |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | x | Yr Iaith Gymraeg | x |
| Beichiogrwydd neu famolaeth | x | Tlodi | x |
| Hil | x | | |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Annog cwmnïau lleol i ddod yn gyflogwyr gydag achrediad hyderus o ran anabledd. | Pobl anabl â gwell mynediad i gyflogaeth.<br>Mwy o gwmnïau lleol gyda statws hyder anabledd. | Prif Swyddog – Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau | Mae 39 busnes lleol yn Ymrwymedig i Hyderus o Ran Anabledd (Lefel 1). Mae saith busnes lleol yn Gyflogwyr Hydrus o Ran Anabledd (Lefel 2) fel ar 31 Mawrth 2025. Mae hyn yn welliant bach o ffigurau 23/24 a ddangosodd fod 39 busnes lleol yn Ymrwymedig i Hyderus o Ran Anabledd a dau fusnes lleol yn Gyflogwyr Hyderus o Ran Anabledd.<br>Rydym yn gweithio gyda’r Adran Gwaith a Phensiynau i ddatblygu digwyddiad ar y cyd ar gyfer cyflogwyr lleol i godi ymwybyddiaeth o’r cynllun. |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Sicrhau bod ein dogfennau tendr yn annog a hyrwyddo amrywiaeth ymysg ein cyflenwyr a chontractwyr. | Cefnogi amrywiaeth o fewn y gweithle | Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg | Defnyddiwn dendro i hyrwyddo amrywiaeth yn y gadwyn gyflenwi. Defnyddiwn feini prawf i ddynodi os yw darpar gyflenwyr wedi ymwneud â Thribiwnlysoedd Cyflogaeth; os oedd ymchwiliadau neu gyhuddiadau ar y gweill yng nghyswllt hawliau dynol/caethwasiaeth fodern. Gofynnwn hefyd eu bod yn sicrhau fod pawb a gyflogir yn derbyn hyfforddiant mewn cydraddoldeb ac y cydymffurfir gyda gofynion am y Gymraeg.<br><br>Gofynnwn hefyd i gynigwyr gyflwyno ymrwymiadau gwerth cymdeithasol fydd yn ffurfio rhan o'u contractau ar wahanol gynlluniau i fynd i'r afael â digartrefedd, anghydraddoldeb a gwella cyflogadwyedd i bobl dan anfantais a phobl ifanc.<br><br>Mae hefyd gyfleoedd i gynnwys mwy o wybodaeth o fewn manylebion ar bob prosiect unigol. |
| Darparu rhaglenni cyflogadwyedd a meithrin partneriaethau gyda chyflogwyr a busnesau lleol. | Cefnogir amrywiaeth o fewn y gweithle a gyda phartneriaid | Pennaeth Economi, Cyflogaeth a Sgiliau | Rydym wedi parhau i ddarparu cymorth fel rhan o brosiect Busnes Sir Fynwy a ariannwyd gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin.<br><br>Fe wnaethom gynnal dwy ffair swyddi ym mis Medi 2024 i'r rhai a fynychodd gwrdd â chyflogwyr lleol o sectorau yn cynnwys: Gofal, Adeiladu, Lletygarwch, Logisteg a Manwerthu.<br><br>Roeddem hefyd yn cynnig cymorth cyflogaeth a chyfleoedd a hyfforddiant. |
| Cadw rhwydwaith gynaliadwy a hygyrch o fysus cyhoeddus (yn cynnwys cludiant cymunedol) sy'n | Cadw hygyrchedd i ganol trefi | Pennaeth Datgarboneiddio, Trafnidiaeth a Gwasanaethau Cymorth | Fe wnaethom fabwysiadu Strategaeth Trafnidiaeth Leol newydd ym mis Mai 2024. Fe wnaethom hefyd ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru i gynyddu amlder rhai gwasanaethau bws cyhoeddus i sicrhau sir gyda chysylltiadau da ar gyfer ein preswylwyr. |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| gwasanaethu canol ein trefi. | | | |
| Cynnig cyfleoedd rhwydweithio, cyfeirio a, lle’n briodol, gyllid grant i gefnogi arallgyfeirio busnesau gwledig. | Cefnogir amrywiaeth o fewn y gweithle a gyda phartneriaid | Pennaeth Economi, Cyflogaeth a Sgiliau | Mae Busnes Sir Fynwy a Thîm Bwyd Cynaliadwy Cyngor Sir Fynwy wedi cynnig cyfleoedd rhwydweithio, cymorth, cyfeirio a pheth cyllid grant i gefnogi arallgyfeirio busnesau gwledig yn ystod 2024/25.<br>Cefnogwyd wyth busnes yn ystod 2024/25. |
| Darparu cefnogaeth ar gyfer creu 6,240 o gyfleoedd swydd cynaliadwy. | Mwy o bobl â mynediad i gyfleoedd cyflogaeth | Pennaeth Creu Lle, Adfywio, Priffyrdd a Llifogydd | Rydym wedi datblygu Cynllun Datblygu Lleol Newydd adnau. Cafodd hyn ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Hydref cyn ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Rhagfyr 2024. Caiff hyn ei gyflwyno i’r Cyngor yn hydref 2025.<br>Rydym yn parhau i roi cymorth i unrhyw un sydd â diddordeb mewn dechrau eu busnes eu hunain drwy brosiect Busnes Sir Fynwy (a gaiff ei ariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin). Fe wnaethom gynorthwyo 49 busnes yn 2024/25, sy’n uwch na’r targed o 30. |

## 3. Gweithio gyda phartneriaid a phreswylwyr i adeiladu cymunedau cynhwysol a chydlynus

Mae'r amcan hwn yn gysylltiedig â:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran | x | Crefydd neu gredo | x |
| Anabledd | x | Rhyw | x |
| Ailbennu rhywedd | x | Cyfeiriadedd rhywiol | x |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | x | Yr Iaith Gymraeg | x |
| Beichiogrwydd neu famolaeth | x | Tlodi | x |
| Hil | x | | |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Dathlu amrywiaeth a chynnal digwyddiadau codi ymwybyddiaeth; yn cynnwys dyddiadau allweddol yn y calendr tebyg i'r Mis Hanes Du a Ramadan. | Cynyddu ymwybyddiaeth o amrywiaeth yn y gymuned | Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg | Fe wnaethom gynnal nifer o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn yn cynnwys y Gynhadledd Ieuenctid Flynyddol yn Neuadd y Sir, dathlu Diwrnod Windrush yn Neuadd y Sir, diwrnod hwyl i'r teulu y Fforwm Gofalwyr Ifanc yng Nghastell Cil-y-coed a Diwrnod Antur Awyr Agored Hygyrch yng Nghanolfan Awyr Agored Gilwern.<br><br>Fe wnaethom nodi Diwrnod Annibyniaeth Wcráin drwy annog cymunedau i ymuno yn ymgyrch ryngwladol Making Noise for Ukraine a dathlu 30 mlynedd o Fasnach Deg yn ystod Bythefnos Marchnad Deg gyda llu o ddigwyddiadau ar draws y sir.<br><br>Roedd y digwyddiadau eraill y gwnaethom eu cynnal yn cynnwys: digwyddiad |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn yng Nghil-y-coed, Digwyddiad Diwrnod Cofio'r Holocost yn Neuadd y Sir, Diwrnod Rhyngwladol Menywod yn Neuadd y Sir a Diwrnod y Gymanwlad yn Neuadd y Sir.<br><br>Fe wnaethom hefyd gynnal digwyddiad Iftar yn Neuadd y Sir mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Gymunedol Mwslimiaid Sir Fynwy. |
| Cefnogi a galluogi creu grwpiau cymunedol i sicrhau fod gan bawb lais ac y medrant gymryd rhan a helpu i lunio dyfodol ein sir. | Cynyddu amrywiaeth mewn ymgynghoriad | Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg<br><br>Rheolwr Datblygiad a Darpariaeth Cymunedol | Gofynnwn am fewnbwn gan bobl ifanc drwy fforymau *Ymgysylltu i Newid*, a'n Cynhadledd Ieuenctid flynyddol i'w cefnogi i gymryd rhan ym mhenderfyniadau'r cyngor a'r gymuned. Eleni, cymerodd 3,509 o ddisgyblion ran yn yr arolwg 'Gwneud eich Marc', gan dynnu sylw at bryderon tebyg i gostau byw, iechyd a llesiant, newid hinsawdd ac unigrwydd. Defnyddiodd Gwasanaethau Ieuenctid yr adborth hwn i addasu eu darpariaeth yn unol â hynny. Fe wnaeth pobl ifanc hefyd gyfrannu at ein Hasesiad Digonolrwydd Chwarae 2024/25 yn ystod y Diwrnod Llysgenhadon Ifanc, gydag adborth gan 347 o blant – lefel amlwg uchel o ymgysylltu o gymharu ag awdurdodau eraill.<br><br>Rydym wedi sefydlu gwasanaeth Treftadaeth a Diwylliant cadarn sy'n cynnig ymgysylltu ansawdd uchel gyda hanes lleol. Mae prosiect Cymru Wrth-hiliol wedi creu partneriaethau gyda grwpiau fel Cymdeithasol Gymunedol Mwslimiaid Sir Fynwy a Diwylliant a Threftadaeth Cas-gwent-Wcráin, gan arwain at weithgorau ac arddangosfa dros dro yn Amgueddfa y Fenni.<br><br>Cafodd arddangosfa 'Newid yn Wynebau Cas-gwent ei datblygu yn Amgueddfa Cas-gwent mewn partneriaeth gyda'r gymuned Wcráin, yn cynnwys arddangosiadau wedi eu diweddaru ac ymchwil newydd.<br><br>Bu cynghorwyr yn allweddol mewn prosiectau lleol i wella hygyrchedd, tebyg i osod y ddogn gyntaf o gyrbiau is ym Mhenperllenni.<br><br>Rydym yn cefnogi cymunedau cynhwysol, cydnerth ac wedi'u grymuso ar draws y sir, gan sicrhau fod pawb, beth bynnag eu cefndir, yn cael cyfle i gymryd rhan, cyfrannu a helpu i lunio dyfodol eu hardal leol. Mae Gardd Cymunedol Wyesham - Tyfu gyda'n Gilydd a Be Community – Hyfforddiant ar gyfer Ymarfer |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | Cynhwysol yn enghreifftiau allweddol.<br>Rydym hefyd yn cysylltu grwpiau gydag adnoddau a chyfleoedd cyllido hanfodol. |
| Dod yn sir gyfeillgar i oedran a cheisio achrediad gan Sefydliad Iechyd y Byd. | Caiff pobl hŷn eu cefnogi i gynnal eu hiechyd a'u llesiant<br>Achrediad gan Sefydliad Iechyd y Byd | Swyddog Partneriaethau (Cymunedau Cyfeillgar i Oedran) | Cyflwynwyd ein cais i Sefydliad Iechyd y Byd i gael achrediad fel sir gyfeillgar i oedran ym mis Gorffennaf 2025. Byddwn hefyd yn ymrwymo i Addewid Cyflogwr Cyfeillgar i Oedran y Ganolfan Heneiddio'n Well. Bydd hyn yn gwella gwaith ar gyfer pobl yn eu 50au a'u 60au i'w helpu i ffynnu mewn gweithlu aml-genhedlaeth. |
| Cefnogi datblygu fforwm ar gyfer pobl anabl. | Pobl anabl â fforwm i lywio gwneud polisi a darpariaeth gwasanaeth | Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg<br>Rheolwr Datblygiad a Darpariaeth Cymunedol | Rydym yn ymweld â grwpiau i'r anabl i gysylltu a meithrin gallu ac i ddeall eu hanghenion.<br>Defnyddiwn ein llwyfan newydd 'Sgwrsio Sir Fynwy' i ddatblygu Fforwm Mynediad i Bawb a chynnal fforwm ar-lein i holi bobl beth fyddent yn ei hoffi. |
| Gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched a thrais domestig a rhywiol. | Menywod yn teimlo'n fwy diogel o fewn eu hamgylchedd | Rheolwr Partneriaeth Strategol | Rydym yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i ddatblygu set data fydd yn galluogi bwrdd VAWDASV (Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol) i gael ei arwain yn fwy gan wybodaeth. Bydd hyn yn gwella llif gwybodaeth i Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Fynwy i weithio'n fwy rhagweithiol yn y maes hwn ar ddiogelu, atal a chymorth cynnar i wella canlyniadau ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr. |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Sicrhau fod gennym lwybr clir ar gyfer y rhai heb unrhyw fynediad i gyllid cyhoeddus. | Cymorth a chyngor ar gael i rai heb hawl i gyllid cyhoeddus. | Rheolwr Partneriaeth Strategol | Rydym wedi datblygu canllawiau ar lwybr heb hawl i gyllid gyhoeddus ac wedi'i ddosbarthu i'r holl gydweithwyr ar y rheng-flaen. Dylai hyn leihau'r risg fel nad yw'r mwyaf bregus yn ein cymunedau yn syrthio drwy unrhyw fylchau yn y systemau cymorth. |
| Gwella ein defnydd o ddadansoddiad data a theledu cylch cyfyng i atal troseddau a rhoi tystiolaeth i'r heddlu pan fo troseddau yn digwydd. | Pobl yn teimlo'n fwy diogel o fewn eu hamgylchedd | Rheolwr Partneriaeth Strategol | Rydym yn parhau i ddefnyddio teledu cylch cyfyng ar draws y sir, gan ganolbwyntio ar y prif drefi, i atal a chanfod ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu ac anrhefn.<br><br>Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu asesiad anghenion strategol ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y sir. Cefnogir hyn gan arolwg cyhoeddus i gasglu barn y boblogaeth ar draws Sir Fynwy ar ba mor ddiogel y maent yn teimlo yn byw ac yn gweithio yn y sir. Bydd yr asesiad anghenion yn ffurfio'r llinell sylfaen. Caiff blaenoriaethau ar gyfer y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol eu tynnu o'r dystiolaeth a bydd yn llunio'r ffordd orau i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i fynd i'r afael â'r prif heriau. |
| Gwella cymorth tai ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches a grwpiau eraill ar y cyrion. | Cymunedau ar y cyrion yn derbyn cymorth tai | Prif Swyddog – Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau<br><br>Rheolwr Tai a Chymunedau | Rydym yn cydweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chynghorau gwledig eraill i wella opsiynau tai ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches.<br><br>Mae cynnig tymor byr wedi dynodi eiddo sector preifat y gellid eu defnyddio ar gyfer y diben hwn dros dro. |
| Cael achrediad fel sir noddfa a man noddfa ar gyfer mudwyr LHDTC+. | Sir Fynwy yn sir nodded.<br><br>Achrediad fel sir nodded ar gyfer mewnfudwyr | Rheolwr Partneriaeth Strategol | Rydym yn parhau i ddatblygu trefniadau fydd yn cefnogi cais i Sir Fynwy gael achrediad fel Sir Noddfa yn dilyn cefnogaeth drawsbleidiol yn y Cyngor. Cyflwynir strategaeth i'r cabinet yn hydref 2025.<br><br>Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r gymuned i gryfhau'r gydlyniaeth ar draws y sir a datblygu rhwydweithiau cymorth, a fydd yn rhoi'r dystiolaeth sydd ei |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| | LHDTC+ | | hangen i gynorthwyo gyda'r broses gais. |
| Mynd i'r afael â tlodi mislif a hyrwyddo urddas mislif. | Pobl â mynediad i gynnyrch mislif fforddiadwy. | Arweinydd Datblygu Llesiant Cymunedol | Rydym yn cefnogi ysgolion cynradd ac uwchradd yn ogystal ag ysgolion y Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion i sicrhau fod y cynnyrch mislif maent eu hangen ganddynt ynghyd ag unrhyw hyfforddiant sydd ei angen i gynyddu sgiliau staff yn eu gwybodaeth o'r cynnyrch ac anghenion menywod ifanc a genethod yn y maes hwn. Mae gan bob ysgol stoc o gynnyrch mislif, yn cynnwys 1900 uned o niceri mislif a ddosbarthwyd i ddisgyblion.<br><br>Rydym yn annog pob sefydliad a grŵp cymunedol i gael stoc o gynnyrch mislif am ddim i'w dosbarthu. Mae pob Cydlynydd Datblygu Cymunedol yn cysylltu gyda safleoedd cymunedol i sicrhau lefel ddigonol o stociau a chyflenwad. Cafodd 89 o fudiadau cymunedol gyllid neu gynnyrch fel canlyniad i'r Grant Urddas Mislif.<br><br>Rydym wedi gweithio gyda Womb Wisdom i hyrwyddo urddas mislif ar draws Sir Fynwy. Maent wedi hyrwyddo pamffled ar gyfer rhieni/gwarcheidwaid pobl ifanc anabl am y mislif ac unrhyw anghenion cymorth ychwanegol a allai fod ganddynt, yn ogystal â chefnogi cynllun peilot Llysgenhadon Mislif mewn partneriaeth gydag Ysgol Gyfun Trefynwy. Maent hefyd wedi cefnogi ymgynghoriad ar anghenion ychwanegol fydd yn helpu i lywio'r camau nesaf.<br><br>Fe wnaethom sicrhau £71,286 o gyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi cynlluniau Urddas Mislif ar draws y Sir. |

## 4. Ehangu ein darpariaeth o wasanaethau cymunedol sy'n ymestyn disgwyliad oes iach pobl

Mae'r amcan hwn yn gysylltiedig â:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran | x | Crefydd neu gredo | x |
| Anabledd | x | Rhyw | x |
| Ailbennu rhywedd | x | Cyfeiriadedd rhywiol | x |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | x | Yr Iaith Gymraeg | |
| Beichiogrwydd neu famolaeth | x | Tlodi | x |
| Hil | x | | |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Sicrhau bod seilwaith cerdded a seiclo newydd yn cyrraedd yr ardaloedd gyda'r cyfraddau isaf o weithgaredd corfforol. | Cefnogi pobl yn eu gweithgaredd corfforol | Rheolwr Teithio Llesol, Cyfathrebu ac Ymgysylltu | Rydym yn parhau i gefnogi datblygu trafnidiaeth a seilwaith cynaliadwy drwy ddatblygu llwybrau teithio llesol sy'n annog pobl i gerdded a seiclo i drefi, ysgolion a chyrchfannau allweddol lleol. Rydym wedi ehangu ein rhwydwaith teithio llesol yn cynnwys gosod cyrbau isel i wella'r rhwydwaith. Rydym wedi creu neu wella 18 llwybr teithio llesol ym mhob rhan o'r sir ac mae gennym dros 100 o lwybrau llesol ar hyn o bryd ac 20 arall yn cael eu datblygu.<br><br>Rydym yn ymestyn hyfforddiant diogelwch ffordd i fwy o ysgolion, gan gefnogi newid ymddygiad gyda mwy o gerdded, seiclo ac olwyno i'r ysgol. Fe wnaethom gyflogi Swyddog Teithio Llesol Addysgol i helpu addysgu plant mewn diogelwch ffwrdd ynghyd â llwybrau gwell a mwy diogel ar gyfer plant a hefyd oedolion i gerdded i'r ysgol a gwaith. |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Parhau i ddarparu ystod eang o gyfleoedd i bobl fod yn iach ac egnïol yn cynnwys Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff. | Cefnogi pobl gyda'u gweithgaredd corfforol | Prif Swyddog – Cwsmeriaid, Diwylliant a Llesiant | Rydym wedi parhau i helpu preswylwyr i wella eu lefelau iechyd a ffitrwydd drwy'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff. Cynyddodd y canran o'r rhai a gymerodd ran ac a orffennodd y cynllun i 66% y llynedd. Dywedodd y rhai a orffennodd y cynllun fod eu cydbwysedd, lefelau ffitrwydd ac annibyniaeth, ac yn bwysig eu iechyd meddwl, wedi gwella. Dywedodd 75% o bobl fod eu lles cyffredinol wedi gwella a'u bod yn teimlo yn hapusach.<br><br>Fe wnaethom ail-lansio ein cynllun Pasbort Hamdden yn 2024 a gwelsom nifer sylweddol o bobl yn manteisio ar y cynnig, gan ragori ar ein targed blynyddol. Mae'r cynllun yn gwneud ffitrwydd a gwell iechyd yn hygyrch a mwy fforddiadwy ac yn cynnwys mynediad i gampfeydd, nofio, dosbarthiadau a mwy.<br><br>Fe wnaethom gynnal rhaglen Bwyd a Hwyl wedi'i thargedu drwy gydol gwyliau'r haf yn 2024/25. Roedd hyn yn cynnig dau bryd iach a gweithgareddau i blant yn ystod gwyliau'r haf, gan anelu gostwng y baich ariannol ar deuluoedd. Fe wnaeth y cynllun gefnogi 617 o blant drwy gydol eleni. Cynhaliodd Action for Children hefyd sesiynau pwrpasol ar gyfer plant gydag anghenion ychwanegol.<br><br>Cofnododd ein cynllun Nofio am Ddim 3,691 nofiad yn y flwyddyn 24/25 gyda 1,486 yn sesiynau iau. Ar draws ein rhaglenni, manteisiodd 2,463 o blant o ddarpariaeth chwarae am ddim neu ar gymhorthdal yn 2024/25.<br><br>Cefnogodd y rhaglen Rhwydweithiau Natur 41 o grwpiau cymunedol ar gyfer iechyd a lles, gan ennyn diddordeb 492 o bobl. Bydd cwblhau'r gofod gwyrdd yng Nghanolfan Antur Awyr Agored Gilwern yn gwella dysgu ar gyfer  dysgwyr addysg heblaw yn yr ysgol yr Unedau Cyfeirio Disgyblion, disgyblion ADY Pwrpasol Re-Engage ac ymwelwyr i'r safle. O blith y 6,582 o ddefnyddwyr gwasanaeth y gwnaethom eu croesawu yn 2025, roedd gan 276 Anghenion Dysgu Ychwanegol, 34 anghenion hygyrchedd a 438 yn |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | gymwys am brydau ysgol am ddim. |
| Cefnogi grwpiau cymunedol i godi ymwybyddiaeth o anghydraddoldeb iechyd a mynediad i wybodaeth yn yr ardaloedd mwyaf amddifadus | Gostwng anghydraddoldeb iechyd drwy fynediad i wybodaeth | Pennaeth Hamdden a Llesiant<br><br>Arweinydd Partneriaethau Cymunedol a Llesiant<br><br>Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg | Rydym yn sicrhau fod pob adran yn cyfrannu tuag at ganlyniadau'r Asesiad Digonolrwydd Chwarae i ddarparu cyfleoedd chwarae cynhwysol i bawb, beth bynnag eu hincwm neu gefndir.<br><br>Rydym wedi cydweithio gyda phartner i wella mynediad i wybodaeth yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Sir Fynwy. Drwy gymorth wedi ei dargedu, hyfforddiant cynhwysol ac ymgysylltu ar lawr gwlad, rydym wedi grymuso grwpiau cymunedol i arwain newid o'r tu mewn. Mae hyn yn cynnwys: Cymuned The Gathering – y Fenni, Rhaglen Hyfforddiant Be Community, Mynediad Bwyd a Maeth Cymunedol ac ymgysylltu ieuenctid a diwylliannol. |
| Cefnogi grwpiau cdymunedol i fynd i'r afael ag ynysigrwydd ac unigrwydd gyda ffocws ar gymunedau gwledig | Gostwng effeithiau ynysigrwydd ac unigrwydd | Rheolwr Datblygu a Darpariaeth Cymunedol<br><br>Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg | Rydym yn darparu ystod amrywiol o weithgareddau ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n cyfrannu at iechyd a llesiant. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau mynediad agored yn ein pedair canolfan ieuenctid, tripiau, digwyddiadau, cyfleoedd preswyl a sesiynau allgymorth. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cyfle i bobl ifanc, yn cynnwys pobl ifanc fregus, i feithrin cysylltiadau cymdeithasol, rhoi cynnig ar sgiliau newydd a chanfod hobïau newydd.<br><br>Fe wnaethom gyflwyno dwy raglen 10-wythnos ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Cafodd deuddeg o wirfoddolwyr cymunedol eu hyfforddi i gyflwyno *atgofion am bethau* a chaffes cof ar gyfer pobl hŷn a phobl sy'n byw gyda dementia. Mae'r gwaith hwn wedi helpu i ostwng teimladau o unigrwydd a diflastod ac wedi cynyddu hunan-dyb a hyder rhai yn byw gydag dementia. Mae llwyddiant y rhaglen hon wedi arwain at ddewis Sir Fynwy yn astudiaeth achos ar gyfer Llywodraeth Cymru a hefyd Cymru Oed-gyfeillgar.<br><br>Rydym wedi medru datblygu ymhellach ein gwaith gyda grwpiau gwirfoddol cymunedol i wella a chynnal hawliau tramwy cyhoeddus yn eu hardal leol fel |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | rhan o'n prosiect Llwybrau i Gymunedau. Gwnaed hyn mewn partneriaeth agos gyda Ramblers Cymru,<br><br>Gwelsom gynnydd yn nifer y grwpiau gwirfoddol ac mae aelodau o'r gymuned wedi rhoi 6,381 o oriau gwirfoddol.<br><br>Roedd y prosiect yn cynnwys gwaith i wella hygyrchedd ar gyfer rhai gyda phroblemau symudedd, er enghraifft drwy osod camfeydd a chlwydi newydd i sicrhau fod ein cefn gwlad hardd yn hygyrch i bawb. Mae ein gwaith yn seiliedig ar egwyddor Sir Fynwy o 'fynediad lleiaf cyfyngol'. |

## 5. Sicrhau fod ein gwasanaethau yn hygyrch i'r cyhoedd

Mae'r amcan hwn yn gysylltiedig â:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran | x | Crefydd neu gredo | |
| Anabledd | x | Rhyw | x |
| Ailbennu rhywedd | x | Cyfeiriadedd rhywiol | |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | | Yr Iaith Gymraeg | x |
| Beichiogrwydd neu famolaeth | | Tlodi | x |
| Hil | x | | |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Parhau i sicrhau fod ein adeiladau cyhoeddus yn hygyrch ac addas i bob defnyddiwr gwasanaeth | Adeiladau yn hollol hygyrch i bawb. | Pennaeth Gwasanaethau Landlord | Fel rhan o brosiect 'Cyrchfan i Bawb' Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU rydym wedi comisiynu archwiiad hygyrchedd o atyniadau a safleoedd ymwelwyr ac wedi lansio rhaglen grantiau bach i gefnogi gwelliannau i fynediad. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno cerbyd hygyrch ar drên bach yn Hen Orsaf Tyndyrn. Rydym hefyd wedi cwblhau prosiect Croeso Tyndyrn yn rhoi gwelliannau i feysydd parcio, arwyddion twristiaeth a chroeso ac arwyddion i ymwelwyr.<br><br>Rydym wedi cyfoethogi'r profiad i ymwelwyr drwy wella hygyrchedd gwybodaeth ar ein gwefan cyrchfan yn cynnwys gosod AudioEye a welodd 383 clic. Buom yn datblygu gwybodaeth mynediad cyn ymweliad i holl atyniadau MonLife i'w gwneud yn haws i bobl gydag anghenion mynediad |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | penodol wirio os yw safle neilltuol yn hygyrch iddynt.<br>Fe wnaethom gyflwyno Diwrnod Antur Awyr Agored Hygyrch i'r Teulu yng Nghanolfan Awyr Agored Gilwern ym mis Awst 2024. Roedd y diwrnod yn agored i deuluoedd sydd ag aelod neu aelodau o'r teulu ag anghenion mynediad i gynnwys dysgu ychwanegol neu amhariadau eraill i gael mynediad i weithgareddau antur. Yn dilyn y digwyddiad, cawsom ein cadair ddiweddaraf sy'n addas ar gyfer pob math a dir diolch i GM4X GM4X – All Terrain Wheelchairs i gefnogi anturiaethau mwy hygyrch yn y dyfodol.<br>Fe wnaethom hefyd sicrhau cyllid cyfalaf o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i wella toiledau ac ystafell ymolchi hygyrch ar gyfer ymwelwyr dydd.<br>Rydym yn gwneud gwelliannau ar draws ein safleoedd treftadaeth, gan sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb. Rydym wedi cwblhau arolwg ymwelwyr i ddeall sut y gallwn wella'r profiad ar gyfer y rhai sy'n mynychu ac i ddeall pam nad yw rhai pobl yn mynychu.<br>Rydym wedi gosod drysau mewnol gwthio botwm, sy'n agor eu hunain yn Neuadd y Sir ym Mrynbuga i'w gwneud yn hollol hygyrch. |
| Gweithio gydag eraill i wella darpariaeth hygyrch yng nghanol ein trefi. | Toiledau trefi yn hygyrch i bawb | Pennaeth Gwasanaethau Landlord | Yn unol â Strategaeth Toiledau Lleol y Cyngor, rydym yn parhau i roi ystyriaeth i fuddsoddiad mewn toiledau y mae Cyngor Sir Fynwy yn berchen arnynt yng nghanol trefi. Mae nifer o doiledau yn parhau i gael eu rheoli a'u cadw drwy drefniadau partneriaeth gyda Chynghorau Tref a Chymuned neu drwy les trydydd parti gyda gweithredwyr cyfagos. |
| Sicrhau fod pob cyfathrebiad yn hygyrch, yn cynnwys cydnabod anghenion pobl niwroamrywiol. | Pawb yn medru cael mynediad i gyfathrebiadau | Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu ac Ymgysylltu | Rydym yn datblygu gwelliannau parhaus i'n gwefan i sicrhau ei bod yn parhau'n hygyrch i bawb yn unol â chanllawiau cenedlaethol a elwir yn fanylebion WCAG2.2. Rydym bellach yn olrhain cynnydd y prosiect hwn yn fisol ac wedi gweld cynnydd parhaus. Mae ein diweddariadau parhaus i'r safle yn ein gweld yn gwella fis wrth fis. Rydym yn cydweithio gyda rhanddeiliaid i wella hygyrchedd yn cynnwys gwella perfformiad darllenydd sgrîn. |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | Lansiwyd Sgwrsio Sir Fynwy ym mis Ionawr 2025. Mae hyn yn rhoi un lle i breswylwyr ymweld ag ef ar gyfer pob ymgynghoriad a chyfleoedd ymgysylltu digidol ar draws y sefydliad i wella ymgysylltu â phreswylwyr. |
| Sicrhau ein bod yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd wrth ddatblygu gwasanaethau newydd ac ailgyflunio gwasanaethau presennol. | Dileu rhwystrau ar gyfer pobl anabl<br>Ymwreiddio Model Cymdeithasol Anabledd ar draws y sefydliad | Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg<br>Pennaeth Gofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd | Rydym wedi creu model gwasanaeth newydd o'r enw Fy Ngwasanaeth Cymorth. Mae hyn yn seiliedig ar ddull ailalluogi/galluogi. Caiff pobl eu cefnogi ar sail un i un a'u hannog i wneud gweithgareddau o'u dewis o fewn eu cymuned. Y nod yw helpu'r person i ddod yn annibynnol yn y gweithgaredd hwnnw. Sylweddolwn y bydd rhai unigolion bob amser angen cymorth gyda'r gweithgareddau hyn ac y bydd angen iddynt gael mynediad i ganolfan ar adegau yn ystod y dydd.<br>Datblygwyd Rhaglen Awtistiaeth mewn Ysgolion a Lleoliadau Sir Fynwy dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf gyda'r Ymddiriedolaeth Addysg Awtistiaeth/Cymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol ac yn canoli ar fodel cymdeithasol anabledd. Mae ffocws y rhaglen ar feithrin galluedd o fewn ein holl ysgolion/lleoliadau i ddatblygu cysyniad awtistiaeth fel 'gwahaniaeth nid diffyg' ac i ni ddatblygu 'amgylcheddu galluogi' i sicrhau y gall plant a phobl awtistig eu galluogi i wneud cynnydd.<br>Cafodd modiwl hyfforddiant ysgol/lleoliad cyfan dechreuol y rhaglen 'Gwneud Synnwyr o Awtistiaeth' ei gyflwyno i dros 95% o ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar, yn ogystal ag i amrywiaeth o swyddogion yr awdurdod lleol yn cynnwys timau tebyg i'r tîm Plant gydag Anableddau, MonLife a'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ogystal â chwnselwyr seiliedig mewn ysgolion a therapyddion chwarae. Mae gan bob ysgol a'r rhan fwyaf o leoliadau blynyddoedd cynnar Bencampwr Awtistiaeth penodol. Cafodd Bwrdd Partneriaeth Awtistiaeth mewn Ysgolion a Lleoliadau Sir Fynwy ei greu i gael trosolwg parhaus o'r Rhaglen wrth i ni symud i ymestyn arfer da mewn awtistiaeth. |
| Hyrwyddo cyrsiau i | Gwella hygyrchedd | Rheolwr Hybiau | Rydym yn cynnig cyfleoedd dysgu Llythrennedd Digidol Lefel Mynediad 1 a 2 |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| godi sgiliau a llythrennedd digidol ymysg pob grŵp drwy gyrsiau addysg gymunedol a'n hybiau cymunedol. | drwy sgiliau digidol | Cymunedol, Addysg a Llyfrgelloedd | fel rhan o gwricwlwm 2024-25. Gwnaed hyn mewn partneriaeth â Choleg Gwent. Mae'r cyrsiau hyn sydd ag achrediad, a ddyfernir gan Agored Cymru, ar gael yn Hybiau Cas-gwent, Cil-y-coed, Trefynwy a'r Fenni. Cawsant eu cynllunio i fod yn hyblyg ac maent yn rhoi amgylchedd cefnogol a chroesawgar i breswylwyr i ailgysylltu gyda dysgu, gan helpu i chwalu rhwystrau a chynyddu hyder mewn sgiliau digidol. |
| Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a gyflogir gan y cyngor i wella mynediad. | Siaradwyr Cymraeg yn medru cael mynediad llawn i'w gwasanaethau yn eu hiaith eu hunain | Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg | Rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025 fe wnaethom gyhoeddi 683 hysbyseb swydd. Roedd 659 (96.49%) ohonynt yn nodi fod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol gyda sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer 24 (3.51%).<br><br>Rydym yn cynnwys y fframwaith sgiliau Cymraeg ym mhob hysbyseb swydd. Rydym hefyd yn defnyddio safleoedd recriwtio Cymraeg i hysbysebu swyddi lle'r aseswyd fod y Gymraeg yn hanfodol, yn ogystal â rhai swyddi lle byddai'r Gymraeg yn ddymunol. Drwy hysbysebu swyddi ar y safleoedd recriwtio neilltuol hyn, rydym yn ei gwneud yn haws i siaradwyr Cymraeg ganfod ein swyddi gwag ac wedi llwyddo i benodi siaradwyr Cymraeg fel canlyniad.<br><br>Mae 53 o gydweithwyr wrthi'n cwblhau cwrs yn y Gymraeg. Dechreuodd y dosbarthiadau ym mis Medi 2024. |
| Hyrwyddo cynnig gweithredol dewis iaith mewn gofal cymdeithasol. | Pobl yn medru cael mynediad i wasanaethau yn eu dewis iaith | Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg | Defnyddiwn Wasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru (WITS) ar gyfer cyfieithu. Eleni cafodd 283 cais eu gwneud i'r gwasanaeth drwy ofal cymdeithasol. Tamil yw'r iaith y gofynnir amdani amlaf.<br><br>Roedd ein cynnig gweithredol Mwy na Geiriau yn cynnwys 13 o oedolion a ofynnodd am asesiad yn y Gymraeg a chawsant gynnig hynny. Gofynnodd 28 o blant am eu hasesiad yn y Gymraeg a chafodd 27 ohonynt yr asesiad yn y Gymraeg. |
| Sicrhau fod | Gwella gwneud | Rheolwr | Rydym wedi datblygu a chyflwyno hyfforddiant mewn Cydraddoldeb ar gyfer |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
| --- | --- | --- | --- |
| hyfforddiant ar gydraddoldeb ar gael i'r holl staff a chynghorwyr i wella gwneud penderfyniadau cynhwysol. | penderfyniadau cynhwysol | Cydraddoldeb a'r Gymraeg | Llwybr Datblygu Arweinwyr/Rheolwyr newydd. Mae hyn yn cynnwys: Nodweddion Gwarchodedig, Croestoriadedd, Cynhwysiant a Pherthyn, Iaith Gynhwysol a Rhagfarn Ddiarwybod.<br>Mae cwrs hyfforddi gwahanol ar gydraddoldeb hefyd ar gael drwy Thinqi fel rhan o'r hyfforddiant hanfodol ar gyfer yr holl weithlu. Mae cyflwyniad ar Addasu Rhesymol hefyd ar gael ar gyfer pob cydweithiwr. |
| Adolygu proses Asesu Effaith Integredig | Y broses Asesu Effaith Integredig yn addas i'r diben ac wedi ei hymwreiddio | Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg<br>Prif Swyddog – Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau | Rydym wedi diwygio a diweddaru'r templed a chanllawiau Asesiad Effaith Integredig. Cyhoeddwyd hwn ar Sharepoint i fod ar gael i bob cydweithiwr.<br>Hysbyswyd Timau Rheoli Cyfawryddiaethau a chafodd hefyd ei hysbysebu yn Compass, ein cylchlythyr mewnol.<br>Gwnaed ffilm arweiniad fydd ar gael i bob rheolwr drwy Thinqi a'r Llwybr Datblygu Arweinwyr/Rheolwyr. |

## 6. Sicrhau fod gennym weithlu amrywio a gweithle hollol gynhwysol

Mae'r amcan hwn yn gysylltiedig â:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran | x | Crefydd neu gredo | x |
| Anabledd | x | Rhyw | x |
| Ailbennu rhywedd | x | Cyfeiriadedd rhywiol | x |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | | Yr Iaith Gymraeg | x |
| Beichiogrwydd neu famolaeth | | Tlodi | |
| Hil | x | | |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Sicrhau ein bod yn cyrraedd statws lefel 2 hyderus o ran anabledd o fewn blwyddyn gyntaf y cynllun ac yna weithio tuag at lefel 3. | Sicrhau Lefel 2 Hyderus o ran Anabledd | Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg<br><br>Prif Swyddog – Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau | Cawsom Lefel 2 Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd ym mis Mai 2024. Rydym yn parhau i weithio ar gynllun gweithredu tair blynedd a gaiff ei fonitro a'i diweddaru bob chwarter gan y Grŵp Cynhwysiant Hygyrchedd. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru i sicrhau ein cynnydd a rhannu gwybodaeth. |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
| --- | --- | --- | --- |
| Rhoi mesurau ar waith i gefnogi a darparu ar gyfer anghenion cydweithwyr niwroamrywiol. | Cefnogi cydweithwyr niwrowahanol o fewn y gweithle | Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg | Rydym yn cynnal arolwg o gydweithwyr i benderfynu ar yr angen am gymorth a'r diddordeb mewn rhwydweithiau cydweithwyr drwy bosteri yn ein hadeiladau, erthyglau yn Compass a phresenoldeb yn y gynhadledd staff. Byddai hyn yn cynnwys anghenion cydweithwyr niwroamrywiol. |
| Mynd ati i dargedu cyfleoedd recriwtio at grwpiau a gaiff eu tangynrychioli yn ein gweithlu. | Grwpiau a dangynrychiolir â mwy o gynrychoilaeth gyda'r gweithlu | Prif Swyddog – Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau | Mae ein gwefan swyddi yn hyrwyddo ein dymuniad i dderbyn ceisiadau ac ymholiadau gan bob aelod o'r gymuned. Mae gennym gynnig rhagweithiol i'r rhai sydd yn anabl, sydd â cholled golwg neu glyw, sydd ag anhawster dysgu neu sy'n niwroamrywiol i gysylltu i ganfod mwy am gyfleoedd cyflogaeth.<br>Mae gennym gynllun gwarantu cyfweliad ar gyfer pobl anabl yn ogystal â chyn-aelodau'r lluoedd arfog a'r rhai sy'n gadael gofal.<br>Dywedodd 87% o gydweithwyr y teimlent fod Cyngor Sir Fynwy yn hyrwyddo amgylchedd gweithio cynhwysol. |
| Mynd i'r afael â'r bylchau data sy'n bodoli ar draws pob nodwedd warchodedig (yn arbennig ethnigrwydd ac anabledd) a dadgyfuno data ar draws meysydd polisi. | Gostwng bylchau data i roi gwell gwybodaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau. | Prif Swyddog – Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau | Rydym yn gweithio i gasglu data i ddynodi lle mae bylchau. Caiff ein adroddiad ar fwlch cyflog rhywedd ei gyhoeddi'n flynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Byddwn yn dechrau adrodd ar fylchau cyflog ethnigrwydd ac anabledd o 2026. |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
| --- | --- | --- | --- |
| Mynediad i hyfforddiant cynhwysiant ar gyfer yr holl staff i sicrhau ymwybyddiaeth o gynhwysiant ac amrywiaeth o fewn y gweithle | Dathlu amrywiaeth o fewn y gweithlu | Rheolwr Cydraddoldeb a’r Gymraeg | Rydym wedi datblygu hyfforddiant mewn cydraddoldeb fel rhan o’r Llwybr Datblygu Arweinwyr/Rheolwyr. Mae hyn yn cynnwys Nodweddion Gwarchodedig, Croestoriadedd, Cynhwysiant a Pherthyn, Iaith Gynhwysol a Rhagfarn Ddiarwybod. Cafodd hyfforddiant hefyd ei ddarparu mewn Addasu Rhesymol.<br><br>Fel y nodir uchod, mae hyfforddiant mewn cydraddoldeb yn fodiwl gorfodol ar Thinqi, llwyfan hyfforddiant e-ddysgu ar gyfer pob cydweithiwr. |
| Datblygu rhwydweithiau staff i godi ymwybyddiaeth o grwpiau a dangynrychiolir yny gweithle | Datblygu rhwydweithiau staff | Rheolwr Cydraddoldeb a’r Gymraeg | Rydym wedi datblygu arolwg staff i ddeall yn well beth yw anghenion cydweithwyr ac os oes awydd cael rhwydweithiau cydweithwyr. Cafodd hyn ei hysbysu drwy bosteri, yn ein Cynadleddau Cydweithwyr a drwy gyfathrebu mewnol. Rydym yn parhau i roi cefnogaeth i gydweithwyr sy’n dymuno sefydlu rhwydwaith newydd a bydd gan bob rhwydwaith gyswllt Adnoddau Dynol.<br><br>Mae gennym rwydwaith a thudalen gwefan Dyslecsia yn y Gweithle. Rydym yn edrych ar roi mwy o gefnogaeth i’r rhwydwaith hwn gyda phosibilrwydd ei agor fel rhan o Rwydwaith Niwroamrywiol ehangach. Rydym yn sicrhau y caiff rhwydweithiau cydweithwyr eu sefydlu a’u datblygu gan ein cydweithwyr.<br><br>Rydym hefyd yn cynnal Caffe Menopos (ar-lein) ar ddydd Mercher olaf pob mis. |

## 7. Gostwng y bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Mae'r amcan hwn yn gysylltiedig â:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran | | Crefydd neu gredo | |
| Anabledd | | Rhyw | x |
| Ailbennu rhywedd | | Cyfeiriadedd rhywiol | |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | | Yr Iaith Gymraeg | |
| Beichiogrwydd neu famolaeth | x | Tlodi | x |
| Hil | | | |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Sicrhau nad yw llwybrau gyrfa yn cyfyngu gallu staff rhan-amser i symud ymlaen i swyddi uwch. | Ni chaiff staff rhan-amser eu cyfyngu rhag symud ymlaen i swyddi uwch. | Pennaeth Adnoddau Dynol | Mae ein Polisi Gweithio Hyblyg yn cefnogi hawl cydweithwyr i ofyn am weithio rhan-amser. Mewn cysylltiad â hyn, mae ein Polisi Recriwtio a Dethol a'n Polisi Diogelu Cyflogaeth yn cefnogi pob cydweithiwr, yn cynnwys y rhai sy'n gweithio oriau rhan-amser, i symud ymlaen i swyddi newydd ac uwch. Mae ein Strategaeth Pobl yn anelu i ddatblygu arferion cynllunio gweithlu strategol ymhellach, ar draws y sefydliad, a bydd hyn yn cynnwys esblygu nifer fwy o lwybrau gyrfa, yn unol ag adolygiadau polisi cysylltiedig, fydd yn hyrwyddo gallu staff rhan-amser i symud ymlaen i swyddi uwch. |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Parhau i weithredu cynllun tryloyw i werthuso swyddi er mwyn sicrhau cyfraddau tâl cyfartal. | Sicrhau cyfraddau tâl teg | Pennaeth Adnoddau Dynol | Caiff Cynllun GLPC ('Greater Provincial London Council') ei ddefnyddio ar gyfer pob swydd Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) yng Nghyngor Sir Fynwy. Cafodd trefniadau llywodraethu newydd am ddefnydd y cynllun hwn o fewn y sefydliad eu rhoi yn eu lle ym mis Hydref 2024 a chafodd dogfennau polisi ac arweiniad cysylltiedig eu cymeradwyo ym mis Ionawr 2025 i sicrhau cyfraddau tâl teg. Mae Cynlluniau Gwerthuso Swyddi Prif Swyddogion yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd a'u hystyried ar gyfer eu gweithredu, yn ymwneud â phob swydd JNC (Cyd-bwyllgor Negodi) yng Nghyngor Sir Fynwy i sicrhau cyfraddau tâl teg ar gyfer uwch swyddogion. |
| Cyhoeddi gwybodaeth yn flynyddol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, gwerthuso'r rhesymau am y gwahaniaeth mewn tâl ac ymchwilio camau gweithredu priodol i fynd i'r afael â nhw. | Cyhoeddi gwybodaeth yn flynyddol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac ymchwilio camau gweithredu i fynd i'r afael â hyn | Pennaeth Adnoddau Dynol | Cyhoeddwyd ein Hadroddiad Bwlch Cyflog Rhywedd ym mis Mawrth 2025, yn cyfeirio at ddata fel ar 31 Mawrth 2024. Cyhoeddwyd ein Hadroddiad Bwlch Cyflog Rhywedd ym mis Mawrth 2025 yn cyfeirio at ddata fel ar 31 Mawrth 2024. Mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso'r rhesymau am y gwahaniaethau mewn tâl rhwng y rhywiau ac yn ymchwilio camau gweithredu priodol i fynd i'r afael â'r rhesymau hyn. Gender-Pay-Gap-Report-2025.pdf |